

PRIFFYRDD, CYMRU

2013 RHIF. 13

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (WARREN
EVANS COURT, GLANDWR PLACE, YR
EGLWYS NEWYDD, CAERDYDD) 2013**

Gwnaed 22 Mai 2013

Yn dod i rym 31 Mai 2013

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn hwn drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990(1).

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. (1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cau Priffyrdd (Warren Evans Court, Glandwr Place, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd) 2013.

(2) Yn y Gorchymyn hwn:-

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y mae'r caniatâd cynllunio wedi ei roi iddo;

ystyr "Deddf 1990" ("*the 1990 Act*") yw Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; ac

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Warren Evans Court, Glandwr Place, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd) 2013" sydd gyda'r Gorchymyn hwn.

(3) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar y dyddiad y cyhoeddir yr hysbysiad fod y Gorchymyn wedi ei wneud yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990.

Cau Priffordd

2. Yn ddarostyngedig i erthyglau 3, 4, 5 a 6, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni ei bod yn

angenrheidiol cau'r briffordd i alluogi'r datblygiad i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 24 Rhagfyr 2012 o dan y cyfeirnod 12/01872/DCO ac a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn.

Priffordd(Priffyrdd) Newydd/Wedi ei(eu) Gwella

3. Crëir, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd a ddisgrifir yn Atodlen 2 ac a ddangosir â dotwaith ar y plan a adnewyd a'r priffyrdd y gwneir gwelliannau iddynt a ddisgrifir yn Atodlen 3 ac a ddangosir â chroeslinellau ar y plan a adnewyd, a byddant, at ddibenion Deddf Priffyrdd 1980(2), yn briffyrdd sydd i'w cynnal a'u cadw ar draul y cyhoedd a'r Cyngor fydd yr awdurdod priffyrdd drostynt.

Y Darpariaethau sy'n Angenrheidiol neu'n Hwylus cyn Cau'r Briffordd ac ar gyfer Darparu neu Wella'r Priffyrdd

4. Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd yn Atodlen 1:

(a) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, y priffyrdd newydd ac wedi eu gwella a ddisgrifir yn Atodlenni 2 a 3;

(b) hyd nes y bydd y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos drwy ba fodd y bwriedir cau'r rhan o briffordd;

(c) hyd nes y bydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 4 wedi dechrau, a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn caniatáu i'r datblygiad fynd rhagddo; a.

(ch) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a), (b) ac (c) wedi eu bodloni.

Ymgwymerwyr a Darparwyr Statudol

4. Os, yn union cyn cau'r rhan o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, bydd unrhyw offer ymgwymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd honno, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgwymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd mewn cysylltiad â'r offer ag a oedd ganddynt cyn cau'r briffordd.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

5. Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn Atodlen 2 o'r Gorchymyn hwn wedi ei ddechrau o fewn y cyfnod

perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel cyfnod para'r caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â chael effaith pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 22 Mai 2013

R Morgan

RICHARD MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1990 p. 8. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, ac maent yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30(2) o Atodlen 11 iddi.
- (2) 1980 p. 66

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o'r briffordd a elwir yn Glandwr Place, a'i hyd mwyaf yn 5.4 metr, ei lled mwyaf yn 4.5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 19.24 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio ag 'A' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

i. Rhan afreolaidd ei siâp gyferbyn â rhif 43 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 3.7 metr, ei lled mwyaf yn 6 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 22.76 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio â 'B' ar y plan a adnewwyd.

ii. Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhedeg o gyferbyn â rhif

47 hyd at rif 52 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 36 o fetrau, ei lled mwyaf yn 1.6 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 64.6 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei farcio ag 'C' ar y plan a adnewwyd.

iii. Rhan afreolaidd ei siâp i'r gogledd o Glandwr Place, a'i hyd mwyaf yn 81 o fetrau, ei lled mwyaf yn 7.5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 346.9 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio â 'D' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd, sy'n ymestyn o 58 Warren Close hyd at 4 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 114 o fetrau, ei lled mwyaf yn 54 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,414 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio ag 'E' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 4

Y Datblygiad Arfaethedig yn Warren Evans Court, Glandwr Place, Yr Eglwys Newydd.

Dileu rhan o briffordd ac ailalinio'r briffordd fabwysiedig i ddarparu manau parcio ffurfiol ychwanegol.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990

GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (WARREN EVANS COURT, GLANDWR PLACE, YR EGLWYS NEWYDD, CAERDYDD) 2013

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 i awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; i ddarparu'r rhannau newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn ac i wella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yr awdurdodir cau'r briffordd. Bydd y Gorchymyn yn peidio â chael effaith os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y cyfnod o 6 wythnos ar ôl 31 Mai 2013, gellir edrych ar gopiau o'r Gorchymyn a'r map a

adnewwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Sir Caerdydd, Rheoli Datblygu, Neuadd y Ddinas, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3ND neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru qA1046882.

Os tramgwyddir person gan y Gorchymyn, ar y sail:

- a. Nad yw o fewn pwerau Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990; neu
- b. Na chydymffurfiwyd â gofyniad gweithdrefnol yn y Ddeddf,

Caiff y person hwnnw wneud cais, cyn pen 6 wythnos i 31 Mai 2013 i'r perwyl hwnnw i'r Uchel Lys.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk. (Detholer: Deddfwriaeth / Is-ddeddfwriaeth / Offerynnau Anstatudol / Trafnidiaeth, Cymru / Gorchmynion Cau TCPA / 2013).

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

M Burnell

M D BURNELL
Trafnidiaeth,
Llywodraeth Cymru

YR ATODLENNI

ATODLEN 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhan o'r briffordd a elwir yn Glandwr Place, a'i hyd mwyaf yn 5.4 metr, ei lled mwyaf yn 4.5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 19.24 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei farcio ag 'A' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 2

Disgrifiad o'r rhannau newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn

i. Rhan afreolaidd ei siâp gyferbyn â rhif 43 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 3.7 metr, ei lled mwyaf

yn 6 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 22.76 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio â 'B' ar y plan a adnewwyd.

ii. Rhan afreolaidd ei siâp sy'n rhedeg o gyferbyn â rhif 47 hyd at rif 52 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 36 o fetrau, ei lled mwyaf yn 1.6 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 64.6 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio ag 'C' ar y plan a adnewwyd.

iii. Rhan afreolaidd ei siâp i'r gogledd o Glandwr Place, a'i hyd mwyaf yn 81 o fetrau, ei lled mwyaf yn 7.5 metr a chyfanswm ei harwynebedd yn 346.9 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio â 'D' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 3

Disgrifiad o'r rhan o briffordd svdd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn

Rhan afreolaidd ei siâp o briffordd sy'n ymestyn o 58 Warren Close hyd at 4 Warren Evans Court, a'i hyd mwyaf yn 114 o fetrau, ei lled mwyaf yn 54 o fetrau a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,414 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan wedi ei marcio ag 'E' ar y plan a adnewwyd.

ATODLEN 4

Y Datblygiad Arfaethedig yn Warren Evans Court, Glandwr Place, Yr Eglwys Newydd.

Dileu rhan o briffordd ac ailalinio'r briffordd fabwysiedig i ddarparu manau parcio ffurfiol ychwanegol, yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan Cyngor Sir Caerdydd ar 24 Rhagfyr 2012 o dan y cyfeirnod 12/01872/DCO.